

Pecyn Cymorth Gwylliau Bwyd

Croeso Cymru
www.croeso.cymru

Bwyd a Diod Cymru
www.llyw.cymru/bwydadiodcymru





Mae gwyliau bwyd yn mynd law yn law â'r economi twristiaeth ehangach yng Nghymru.

I'ch helpu chi i gynllunio, datblygu a gwella eich gwyl fwyd, yn y pecyn cymorth hwn ceir syniadau, awgrymiadau ac ymarfer gorau i'ch annog chi i feddwl a'ch helpu chi gyda'r gwaith ymarferol.

Dyw hon ddim yn ddogfen holl gynhwysfawr ond yn hytrach yn becyn cymorth hawdd ei ddefnyddio gyda chrynodeb o ddeunydd darllen ychwanegol ar y diwedd. Efallai eich bod yn mentro i'r maes am y tro cyntaf neu mae'n bosib eich bod wedi trefnu llu o wyliau dros y blynyddoedd, ond beth bynnag eich profiad, gobeithio y bydd pob adran yn cynnwys rhestr ddefnyddiol o syniadau i chi adeiladu arnyn nhw.

Dros y blynyddoedd nesaf, fel rhan o Gynllun Gweithredu Twristiaeth Bwyd Llywodraeth Cymru 2015 – 2020, ein bwriad yw adeiladu ar y pecyn hwn er mwyn gallu eich helpu chi gyda phob agwedd o'ch gwaith hyrwyddo. Byddwn felly'n croesawu unrhyw adborth neu awgrymiadau eraill rydych chi'n credu y dylen ni eu cynnwys fel rhan o esblygiad y pecyn cymorth hwn.

Cynnwys

01_ Cyflwyniad	4
02_ Cynllunio	6
03_ Dylunio a chynnwys	10
04_ Rheoli safle	12
05_ Deddfwriaeth a gofynion	15
06_ Marchnata a chysylltiadau cyhoeddus	19
07_ Gwerthuso'r ŵyl	23
08_ Dolenni defnyddiol	26



01_ Cyflwyniad.

Y gwreiddiau

Diben unrhyw wyl fwyd yw dathlu a mwynhau bwyd. Yn aml, dyma'r unig lefydd y gwelwch chi gynhyrchwyr a phrynwyr dan yr unto. Yn draddodiadol ffordd y gymuned leol o ddathlu'r cynhaeaf oedd gŵyl fwyd, a chyfle i gydnabod y cynnyrch a dyfwyd yn ystod y tymor.

Gellir olrhain dathliadau'r cynhaeaf yn ôl filoedd o flynyddoedd, sy'n golygu bod gwyliau bwyd yn draddodiad hynafol.

Gwyliau bwyd heddiw

Erbyn hyn, mae gwyliau bwyd i'w gweld bron pob penwythnos yng Nghymru – rhai'n ddigwyddiadau bach lleol ac eraill yn wyliau rhyngwladol adnabyddus. Gŵyl fwyaf adnabyddus Cymru yw Gŵyl Fwyd y Fenni, ac ymhlith y gwyliau nodedig eraill mae Wythnos Bysgod Sir Benfro, Gŵyl Bwyd a Diod Ryngwladol Caerdydd, Gwledd Conwy a Gŵyl Bwyd a Diod y Bont-faen, sydd â nifer o wobrau i'w henw. Mae'r rhain, a llu o rai eraill, yn gyfle gwych i arddangos y cynnyrch rhagorol sydd gan Gymru i'w gynnig.

Y pecyn hwn

Nod y pecyn cymorth hwn yw sicrhau eich bod yn cael yr wybodaeth a'r arweiniad sydd eu hangen i drefnu gŵyl fwyd.

Erbyn diwedd y pecyn, byddwch yn gwybod mwy am sut i fynd ati i gynllunio gŵyl, sut i ddylunio ei chynnwys a threfniadau ymarferol y gwaith cynllunio. Hefyd, byddwch yn deall mwy am ddeddfwriaeth a gofynion rhedeg gŵyl, sut i farchnata a gwerthuso eich digwyddiad ac yn olaf ble i gael rhagor o wybodaeth os bydd angen.





02_ Cynllunio.

Cyn mynd ymhellach â'r trefniadau, mae angen ateb y cwestiynau canlynol.

Pam ydych chi'n trefnu gŵyl fwyd?

Y gair am yr hyn sydd wedi eich sbarduno i drefnu'r digwyddiad yw ei amcan. Datganiad byr sy'n crynhoi'r rhesymau dros redeg y digwyddiad yw hwn. Rhannwch yr amcan hwn â phawb sy'n ymwneud â threfnu'r digwyddiad, a chofiwch amdano wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

Beth yw enw a strwythur y cwmni?

Mae'r rhan fwyaf o wyliau'n cynnwys eu lleoliad yn yr enw. Wrth benderfynu ar strwythur y cwmni, mae'n bwysig cadw amcan y digwyddiad yn eich cof. Os yw'n ddigwyddiad elusennol, mae'n debyg mai cwmni cyfyngedig dielw fyddai'r dewis cywir, yn debyg i Wyl Fwyd y Fenni. Ar y llaw arall, Cwmni Buddiannau Cymunedol yw Gwledd Conwy, rhywbeth sy'n werth ei ystyried os mai'ch amcan yw buddsoddi yn y gymuned.

Pwy yw eich cynulleidfa a beth yw eich thema?

Mae penderfyniadau'n llawer haws eu gwneud os ydych chi'n adnabod y bobl mae'r digwyddiad yn eu targedu. Eich cynulleidfa yw eich marchnad darged. Dylech chi ystyried amrywiol elfennau demograffig fel oed, rhyw a lefel incwm, yn ogystal â diddordebau a mathau o bersonoliaeth. Unwaith y byddwch wedi penderfynu ar eich cynulleidfa, byddwch yn deall y thema'n well. Ai bwyd yn unig fydd yno? A fydd alcohol? Cerddoriaeth fyw? Celf? Diwylliant?

Beth yw eich pwynt gwerthu unigryw?

Y dyddiau hyn, mae rhai gwyliau rhyngwladol yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n unigryw amdany'n nhw ac yn defnyddio hynny i ddenu'r torfeydd. Er enghraifft, mae Gŵyl Penwaig Baltig Helsinki yn parhau â hen draddodiad yn y Ffindir ers 1743, pan oedd pysgotwyr yn dibynnu ar werthu eu nwyddau yn yr ŵyl er mwyn pennu pris pysgod drwy'r wlad. Erbyn heddiw, mae'n ŵyl wythnos o hyd sy'n dathlu bwyd môr a hefyd adrodd straeon, perfformiadau theatr gerdd a rhwyfo a phadlo ar eich traed. Mae'r holl elfennau hyn yn gwneud yn siŵr fod yr ŵyl yn addas i deuluoedd ac yn llawn cyffro, gyda rhywbeth at ddant pawb.

Mwy na bwyd yn unig?

Oeddech chi'n gwybod bod gŵyl lwyddiannus Grillstock ym Mryste yn gyfuniad o fwyd a cherddoriaeth? Mae'r ŵyl yn canolbwyntio llawn cymaint ar gerddoriaeth ag y mae ar fwyd da. Mae Grillstock yn ei disgrifio'i hun fel 'penwythnos llawn i'r ymylon o gig, cerddoriaeth ac anrhefn' ac mae wedi sicrhau lle unigryw yng nghalendr gwyliau'r DU drwy gyfuno'r gorau o gerddoriaeth Brydeinig â diwylliant a bwydydd de'r Unol Daleithiau.

Oes gennych chi glwstwr da yn eich ardal?

Boed yn gasgliad o gwmnïau caws neu berllannau afal, beth am fynd ati i drefnu gŵyl sy'n gysylltiedig â chlwstwr ehangach? Er enghraifft, mae Gŵyl Win California, a gynhelir yn Santa Barbara bob mis Gorffennaf, yn cynnwys dros 50 o winllanoedd California a chynhyrchwyr gwin o Ddyffryn Napa, Sir Sonoma a thu hwnt. Er mai gwin yw'r prif atyniad, mae arlwywyr bwyd lleol yn darparu canapés a danteithion sawrus a melyn i gyd-fynd â'r gwinoedd amrywiol sydd ar gael, ac mae'r ŵyl yn talu'n ôl i'r ardal gynhyrchu gwin leol drwy gynnal arwerthiannau a chyfrannu canran o'r elw i elusennau lleol.

Pryd caiff yr ŵyl ei chynnal?

Cyn penderfynu ar eich dyddiad mae'n bwysig ystyried dyddiadau'r gwyliau bwyd sy'n bodoli'n barod. Gallai dyddiad sy'n gwrthdaro â gwyliau eraill yng Nghymru effeithio ar ariannu, pa gynhyrchwyr sydd ar gael a pha mor boblogaidd yw'r ŵyl. Mae hefyd yn werth ystyried tymhorau; ydy'r digwyddiad yn fwy addas ar gyfer y gaeaf neu'r haf? Ydy'r digwyddiad yn cyd-fynd â gwyliau cyhoeddus, digwyddiadau chwaraeon, gwyliau crefyddol neu wyliau ysgol?

Ble fydd yr ŵyl?

Bydd y lleoliad yn dibynnu ar faint yr ŵyl a'r nifer o bobl rydych chi'n gobeithio eu denu yn ystod y flwyddyn gyntaf. Mae nifer o wyliau'n dechrau fel digwyddiadau bach ar sgwâr y pentref gyda masnachwyr lleol ac wrth dyfu maen nhw'n symud i leoliad mwy o faint neu nifer o leoliadau. Mae'n bwysig hefyd ystyried seilwaith a chynllun y safle. A gaiff yr ŵyl ei chynnal mewn adeilad? Fydd hi yn yr awyr agored? Mewn pabell fawr?

Pwy yw eich tîm?

Ar gyfer digwyddiadau bach, efallai y byddwch yn gyfrifol am sawl swyddogaeth, o reolwr y digwyddiad i gyfarwyddwr creadigol. Os ydych yn dibynnu ar wirfoddolwyr, dylech ystyried eu gwahanol sgiliau a neilltuo rolau'n briodol. Fodd bynnag, os oes digon o gyllid, mae'n werth neilltuo rolau i arbenigwyr a chreu tîm. Er enghraifft, gallech ddymuno penodi rheolwr i'r digwyddiad, sy'n mynychu cyfarfodydd, yn cydlynu'r digwyddiadau ac yn cynllunio'r elfennau ymarferol.

Faint o bobl ydych chi'n disgwyl bydd yn ymweld?

Bydd llawer o'ch trefniadau'n dibynnu ar faint y gynulleidfa, felly mae'n bwysig bod mor gywir â phosibl. Mae'r ffactorau sy'n dibynnu ar faint y gynulleidfa'n cynnwys: toiledau, parcio, gatiau, staff maes, a'r nifer o werthwyr bwyd.

Mae nifer o ffyrdd i amcangyfrif maint y gynulleidfa, ac mae'n bwysig defnyddio cyfuniad o'r dulliau canlynol i gael amcangyfrif dilyys:

- Nifer sydd wedi mynychu digwyddiadau yn y gorffennol
- Nifer sydd wedi mynychu digwyddiadau tebyg
- Lleoliad sydd â chapasiti penodol
- Effaith amgylchiadau cyfredol fel yr economi, y tywydd, problemau trafnidiaeth, y tymor, tueddiadau ffasiwn.

Awgrym

Dechreuwch gyda digwyddiad bach hawdd ei reoli, gyda'r bwriad o dyfu dros y blynyddoedd nesaf.





Sut fyddwch chi'n ariannu'r digwyddiad?

Os nad oes arian gennych wrth law eisoes, gallech ystyried dulliau fel partneriaeth neu nawdd. Yn ogystal â chynnig buddsoddiad ariannol, gall busnesau gynnig mathau eraill o fuddiannau a chysylltiadau brand. Ar gyfer digwyddiad bach, meddyliwch am fusnesau lleol ond gwnewch yn siŵr eich bod yn holi'n fuan gan fod nifer o fusnesau'n neilltuo eu cyllid flwyddyn ymlaen llaw. Os ydych yn ystyried defnyddio arian cyhoeddus, dylech sicrhau eich bod yn gwybod am ddyddiadau cau ceisiadau a meini prawf cymhwysedd. Mae mathau eraill o refeniw yn cynnwys gwerthu tocynnau, gwerthiant bar, a chodi ffi maes ar gynhyrchwyr.

Beth yw eich cyllideb?

Byddwch yn realistig ac yn greadigol! Gwnewch waith ymchwil i ddarganfod faint fydd elfennau o'r digwyddiad yn costio, a chyfrifo'r hyn y gallwch ei fforddio. Nid yw cyllideb fechan bob amser yn ddrwg; bydd yn eich gorfodi i fod yn greadigol, a gallai hyn arwain at brofiad unigryw i'r cwsmer!

Nid yw'r rhestr ganlynol yn gynhwysfawr ond dylai gynnwys y prif ffactorau i'w cadw mewn cof wrth ystyried y gyllideb:

- Lleoliad gan gynnwys ynni, tîm blaen tŷ, ffioedd uwch ar adegau prysur, oriau llogi ychwanegol gan gynnwys adeiladau'r safle.
- Cynnwys h.y. cystadlaethau, profiadau brand, dylunio'r lleoliad a phropiau.
- Adloniant h.y. cerddoriaeth fyw, DJ, adloniant plant, gweithdai, arddangosiadau.
- Seilwaith a dodrefn h.y. pabell, stondinau, byrddau, cadeiriau, biniau.
- Cyflenwad dŵr a thrydan i arlwywyr.
- Diogelwch. Mae mwy o bobl, alcohol a sylw yn y cyfryngau yn golygu y bydd angen mwy o ddiogelwch. A fydd y lleoliad yn darparu diogelwch, ynteu fyddwch chi'n gorfod gwneud y trefniadau?
- Brandio. Efallai y cewch eich temptio i ddylunio'r brand eich hun, ond os nad ydych chi'n arbenigo yn y maes hwn, mae'n werth talu i rywun proffesiynol ei wneud.
- Marchnata. Er ei bod yn bosibl gwneud llawer o'r gwaith marchnata ar gyfryngau cymdeithasol, gall taflenni a phosteri wedi'u gosod mewn mannau strategol gynyddu eich amlygrwydd yn fawr.
- Staff gyda sgiliau arbennig ymhob maes fel rheoli digwyddiadau, logisteg, rheoli trafnidiaeth, rheoli torf, iechyd a diogelwch, croesawu, marchnata, cysylltiadau cyhoeddus a'r cyfryngau.
- Costau gweinyddu gan gynnwys yswiriant, eich treuliau a'ch amser.



03_

Dylunio a chynnwys.

Mae'n rhaid i'r brandio a'r cynnwys gyfleu diben y digwyddiad felly cofiwch bob amser pwy yw'r gynulleidfa darged a'r ffordd orau i gyfathrebu â nhw.

Enw'r digwyddiad

Mae enw'r digwyddiad yn bwysig iawn gan mai dyma'r peth cyntaf mae pobl yn ei glywed am eich digwyddiad. Dylai ddisgrifio'r digwyddiad, ond does dim angen gor-gymhlethu; yn aml, yr opsiwn syml yw'r opsiwn gorau. Enghraifft o ddigwyddiad ag enw da yw Gŵyl Fwyd y Fenni. Ar unwaith mae'r darllenwr yn ymwybodol o leoliad a natur y digwyddiad.

Logo a brandio'r digwyddiad

Meddylwch gyntaf a oes angen logo arnoch chi – efallai y gallwch gadw'r brand yn syml. Mae brandio'n fwy na logo deniadol: mae'n ceisio sefydlu barn am eich digwyddiad ym meddyliau eich cynulleidfa. Gallwch wneud hyn yn effeithiol iawn gyda themâu lliw ar eich deunyddiau. Os ydych chi'n ŵyl fwy o faint argymhellir yn gryf eich bod yn gweithio gyda dylunydd proffesiynol i greu eich logo gan fod hyn yn sefydlu'r naws ar gyfer y brand cyfan.

Thema'r digwyddiad

Mae'r thema'n tynnu pob elfen o'r brandio ynghyd ac yn pennu'r awyrgylch mae eich digwyddiad yn gobeithio'i greu. Mae fflagiau a baneri yn eich lliwiau penodol chi yn ffordd dda o greu ymdeimlad gwirioneddol o ŵyl. Gall hyn fod yn rhywbeth drud i'w brynu gyda'ch brand eich hun arnyn nhw, felly beth am osod her i'r clwb gwnïo/ysgol/grŵp cymunedol lleol i wneud rhaid i chi?





04_ Rheoli safle.

Diogelwch

Yr elfen gyntaf a phwysicaf i'w hystyried wrth ddewis safle yw diogelwch. Mae pwyntiau mynediad yn hynod bwysig; a rhaid ystyried defnyddwyr cadair olwyn a mynediad ambiwlans.

Maint

Unwaith y byddwch wedi amcangyfrif faint o bobl fydd yn ymweld (gweler yr adran Cynllunio), dylai cyfrifo maint y safle fod yn eithaf hawdd. Bydd angen i chi ystyried y canlynol:

- Y nifer o stondinau/lleiniau (ychwanegwch 30% at y cyfanswm a gyfrifwyd er mwyn cynnwys gofod tân a chynllun wrth gefn)
- Mannau adloniant
- Ardal arddangosiadau coginio (ychwanegwch 30% ar gyfer lle i'r gynulleidfa)
- Gwasanaethau (swyddfeydd i reolwr y digwyddiad, ariannwr, diogelwch, casglu arian, mannau parcio i gerbydau, toiledau, cymorth cyntaf, yr heddlu, ardal casglu gwastraff)
- Mynediad (byddwch angen ffyrdd digon llydan i'r gwasanaethau brys)

Parcio ceir

Bydd angen i chi ystyried tri grŵp o gerbydau:

- Staff
- Arddangoswyr
- Y cyhoedd

Bydd parcio staff yn dibynnu ar faint eich tîm ar y diwrnod, ac mae'n bosibl y gellir ei ddefnyddio ar gyfer parcio anabl, cymorth cyntaf, a gwesteion enwog. Efallai y bydd angen i arddangoswyr ddadlwytho o dryc mawr a bydd angen mynediad i'r safle arnyn nhw, neu efallai y byddan nhw am gadw eu cerbyd ar y safle a gweithio o'r cerbyd. Dylech sicrhau eich bod yn casglu gwybodaeth am ofnyon trafndiaeth arddangoswyr wrth archebu. O ran y cyhoedd, bydd amcangyfrif y nifer o bobl rydych chi'n disgwyl i ymweld yn caniatáu i chi gyfrifo'r nifer o fannau parcio ychwanegol fydd eu hangen.

Lleoliad

Mae lleoliad yn bwysig iawn. Mae'n rhaid iddo fod yn eithaf canolog gyda mynediad da ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus ac yn agos at y boblogaeth darged ganolog. Bydd angen perimedr diogel i'r safle er mwyn sicrhau nad yw aelodau o'r cyhoedd yn gallu cael mynediad heb docyn os yw'n ddigwyddiad lle mae angen talu i fynd mewn.

Gosodiad

Bydd rhaid i chi ofyn am gyngor gan wasanaethau achub a than lleol er mwyn sicrhau bod y ffordd mae'r safle wedi'i osod yn bodloni gofynion iechyd a diogelwch. Mae'n rhaid i'r gofod rhwng y stondinau fod yn ddigon llydan i gerbydau osod a dad-rigio, yn ogystal â chaniatáu digon o le i'r dorf fynd o amgylch y maes. Gallai creu cynllun safle ar raddfa fawr fod yn ddefnyddiol gyda'r stondinau a'r swyddfeydd wedi'u gosod arno. O ran maint y stondinau, efallai eich byddwch yn dymuno cynnig stondin yr un maint i bawb, neu gynnig amrywiaeth o feintiau gyda phrisiau'n cynyddu gyda'r maint.

Llogi

Mae'n debygol y bydd angen i chi logi rhyw fath o seilwaith ac offer fel pebyll, stondinau, rheweiddiad, generadur, goleuo, byrddau ac ati. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys y costau hyn yn eich cyllideb ac yn cynllunio ymlaen llaw er mwyn sicrhau eich bod yn cael popeth y byddwch ei angen.

Rhywbeth ychydig yn wahanol...

Gan ddibynnu ar eich thema a'ch cynulleidfa, gallai ardal ymlacio fod yn llwyddiannus iawn. Gall ardal gyda diodydd oer, te chai, sachau eistedd / bêls gwair, cadeiriau plygu, papurau newydd, clustogau a gemau bwrdd gynnig dihangfa berffaith i ffwrdd o'r ardaloedd bwyd sy'n gallu bod yn gynddeiriog o brysur.

Staff (gwirfoddolwyr / staff sy'n derbyn tâl)

Mae staff yn hanfodol ar gyfer eich digwyddiad, a bydd angen sgiliau a phrofiad penodol ar aelodau'r tîm i ymgymryd â'u tasgau'n effeithiol. Fel rheolwr y digwyddiad, byddwch yn gyfrifol am oruchwylio a rheoli staff, yn ogystal â darparu hyfforddiant arbennig efallai.

Niferoedd

Unwaith y byddwch wedi penderfynu pa swyddogaethau sydd angen eu llenwi mae'n eithaf hawdd gweld faint o staff sydd ei angen. Er enghraifft, bydd y nifer angenrheidiol o staff diogelwch yn dibynnu ar faint o gathiau sydd gennych, oes alcohol ar werth yn y lleoliad, ydyn nhw'n gweithio sifftiau, oes gennych chi staff cyflenwi mewn achos o salwch?

Swyddogaethau

Fel y soniwyd uchod, gan ddibynnu ar faint eich digwyddiad, efallai y bydd un person yn cyflawni nifer o swyddogaethau, neu bob swyddogaeth yn cael ei neilltuo i arbenigwyr ar gyfer digwyddiadau mwy. Unwaith y byddwch wedi neilltuo rolau i'r bobl berthnasol, mae'n bwysig creu swydd ddisgrifiad ar gyfer pob aelod o staff, a threfnu hyfforddiant a sesiynau briffio staff.

Adloniant

Mae cerddoriaeth fyw yn ffordd wych i greu awyrgylch gŵyl ac annog pobl i aros yn hirach. Mae hefyd yn cynnig math o adloniant ar gyfer ffrindiau ac aelodau eraill o'r teulu sydd â llai o ddiddordeb yn y bwyd o bosib. Yn aml, bydd bandiau lleol yn chwarae am ddim ac yn fwy tebygol o ddod â chefnogwyr brwd gyda nhw i roi hwb i nifer yr ymwelwyr. Os yw eich lleoliad yn caniatáu, beth am estyn y digwyddiad i'r nos? Mae hyn yn gyfle perffaith i wneud mwy o arian drwy'r bar.

Gall mathau eraill o adloniant gynnwys comediwyr, anifeiliaid anwes, actio amatur, consuriwyr, ystumwyr, corau lleol a dawnswyr gwerin Cymreig. Ceir nifer o weithgareddau a allai fod yn boblogaidd gyda theuluoedd gan gynnwys castell neidio, bucking bronco, tenis bwrdd, sgïtla a gemau bwrdd anferth. Ffurf rad o ddiddanu'r plant am oriau yw bêls gwair (sydd hefyd yn gwneud y tro fel seddi y tu allan!) Dylech allu casglu'r rhain o fferm leol am bris rhesymol.

Gwastraff / Ailgylchu

Mae pob gŵyl fwyd fawr yn yr awyr agored yn cynhyrchu'r un math o ddeunydd gwastraff, e.e. poteli gwydr, caniau diod, cwpanau plastig a phapur/cardfwrdd. Mae'r rhan fwyaf o'r deunyddiau hyn yn adnoddau gwerthfawr i'w casglu i'w hailgylchu a'u hailbrosesu mewn i bethau defnyddiol.

Mae ailgylchu yn dda i'r amgylchedd, gan arbed adnoddau ac egni gwerthfawr. Drwy gynnig ailgylchu yn y digwyddiad, bydd eich gŵyl yn cyflwyno neges amgylcheddol gadarnhaol i ymwelwyr, gan wella delwedd gyhoeddus y digwyddiad.

Yn ystod eich sgwrs â'r awdurdod lleol perthnasol, holwch ynglŷn â chasglu gwastraff, ac unrhyw dâl ychwanegol posibl. Gall fod yn werth ymchwilio i gontractwyr preifat a allai gasglu biniau os ydych chi'n teimlo y byddai hyn yn cynnig dewis arall.

Ynghyd â'r biniau a'r casglu, bydd angen i chi drefnu unigolion i gasglu sbwriel ar y safle, drwy gydol y digwyddiad, a gwagio unrhyw finiau gorlawn. Un posibilrwydd fyddai cysylltu â grwpiau gwirfoddoli lleol i weld a fyddan nhw'n medru helpu gyda'r math hwn o waith.

Gwastraff arall i'w ystyried yw gwaredu gwastraff dynol o'r toiledau cludadwy y byddwch wedi'u trefnu. Mae'r rhan fwyaf o gwmnïau sy'n darparu toiledau cludadwy yn medru helpu gyda hyn am dâl. Cofiwch ofyn iddyn nhw pa mor aml fyddan nhw'n gwagio'r toiledau dros gyfnod yr ŵyl, a sut fydd hynny'n cael ei wneud.



05_

Deòðfwriaeth a gofynion.

Mae Deodf lechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 yn ddeodfwriaeth allweodol y dylech fod yn ymwybodol ohoni. Hon sy'n pennu'r gyfraith sy'n diogelu iechyd a diogelwch dinasyddion eraill. Eich amcan wrth gynllunio'r digwyddiad yw sicrhau eich bod yn atal niwed i staff, ymwelwyr a phawb arall sy'n ymwneud â'r digwyddiad.

Pwy sy'n gyfrifol?

Trefnydd y digwyddiad.

Beth sy'n rhaid i mi ei wneud?

Mae angen i chi wneud yn siŵr mai iechyd a diogelwch pawb yw eich ystyriaeth gyntaf. Mae'n bwysig cyfathrebu gyda pherchnogion y lleoliad, yr awdurdod lleol, yr awdurdod tân a'r awdurdod iechyd a diogelwch lleol. Eich cyfrifoldeb chi hefyd yw sicrhau bod pob aelod o staff yn cael hyfforddiant iechyd a diogelwch perthnasol.

Mae torf fawr bob amser yn dda, ond ydy?

Ddim bob tro... os yw'r dorf yn rhy fawr, gall achosi lefelau uchel o ddychryn a straen, a gallai hynny olygu na fydd pobl yn dymuno dod yn ôl.

Ond os yw pawb yn defnyddio synnwyr cyffredin, fydd dim problemau

Mae wedi'i brofi dro ar ôl tro ei bod yn bosib i dorf feddwl mewn ffordd wahanol iawn i unigolion. Peidiwch byth â thybio y bydd pobl yn defnyddio synnwyr cyffredin - byddwch yn barod am y gwaethaf bob tro!



Asesu risg

Asesiad risg yw'r asesiad ffurfiol o beryglon posibl, ynghyd â'r niwed y gallan nhw ei achosi a'u heffaith ar iechyd a diogelwch pobl sy'n ymwneud â'r digwyddiad.

Termau allweddol:

- **PERYGL** - Unrhyw beth sydd â'r potensial i achosi niwed, er enghraifft symud gwrthrychau trwm, peryglon baglu a thrydan.
- **RISG** - Y tebygolrwydd y bydd perygl yn achosi niwed, a mesur o ddifrifoldeb y niwed hwnnw.
- **TEBYGOLRWYDD** - Y siawns y bydd y ddamwain yn digwydd. Dylech chi amcangyfrif hyn.
- **EFFAITH** - Cwmpas a difrifoldeb y canlyniad pe byddai damwain yn digwydd, er enghraifft, gallai disgyn oddi ar reid uchel achosi marwolaeth neu niwed difrifol – byddai effaith y ddamwain hon yn uchel.

Diogelwch bwyd

Mewn unrhyw ddigwyddiad, mae diogelwch bwyd yn bwysig. Fodd bynnag, mewn gŵyl fwyd mae'n gallu bod yn gymhleth delio â nifer fawr o bobl sy'n trin bwyd. Er mwyn symleiddio'r broses, dylech sefydlu set o ofnion y mae'n rhaid i bawb sy'n trin bwyd lynu atyn nhw. Dyma restr o'r dogfennau y bydd angen i chi eu cael gan unrhyw un sy'n trin bwyd:

- Tystysgrif/au Hylendid Bwyd
- Sgoriau Hylendid Bwyd (gallech osod isafswm o 3 allan o 5 i sicrhau safon uchel)
- Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus a Chyflogwyr
- Yr awdurdod lleol lle maen nhw'n gofrestredig
- Dogfennau gwiriad diogelwch nwy (os yw'n gweithredu â nwy)
- Dogfennau gwiriad trydanol (mae'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau'n gofyn i'r holl offer trydanol fod wedi cael prawf PAT)

Cyfyngiadau cynllunio

Bydd angen i chi wirio gyda'r awdurdod lleol a oes unrhyw gyfyngiadau cynllunio posibl ar adeiladu seilwaith dros dro gan fod rheolau pob awdurdod yn wahanol

Trafnidiaeth a chau ffyrdd

- **Rheoli** - Mae rheoli trafnidiaeth yn hynod o bwysig, a byddai'n ddoeth i chi benodi rheolwr trafnidiaeth. Swyddogaeth y rheolwr trafnidiaeth fyddai cynllunio bod yr holl drafnidiaeth yn cyrraedd ac yn parcio'n saf, eu diogelwch, a'u bod yn yn gadael yn saf. Bydd yn gweithio'n agos gyda'r heddlu lleol.
- **Cynllun wrth gefn** - Er eich bod wedi amcangyfrif y nifer o bobl sy'n debygol o ymweld, gallai amgylchiadau fel diwrnod poeth a braf ddyblu eich niferoedd. Mae'n rhaid cadw hyn mewn cof a threfnu meysydd parcio gorlif. Ar y llaw arall, dylech hefyd gynllunio am law trwm – gallai hyn arwain at fethu â defnyddio'r caeau parcio.
- **Arwyddion** - Mae arwyddion yn hanfodol er mwyn cadw trefn yn ystod y broses cyrraedd ac ymadael. Mae'r wybodaeth sydd angen ei chyfleu'n cynnwys lleoliad y parc bysiau, parcio i'r anabl, pob maes parcio arall, a mynediad brys.
- **Cau ffyrdd** - Os yw'r digwyddiad yn cael ei gynnal ar stryd neu ger stryd, efallai y bydd angen i chi gyfyngu ar drafnidiaeth. Fodd bynnag, gall trefnu i gau ffyrdd fod yn ddud iawn. Mae'n rhaid ymgynghori â'r awdurdod lleol, heddlu a thrigolion lleol yn fuan os yw'n debygol o effeithio ar ardaloedd cyfagos.

Caniatâd

Cyn i chi ddechrau ar swmp y gwaith trefnu, mae'n rhaid cael caniatâd ysgrifenedig gan yr holl awdurdodau perthnasol. Yn gyntaf, dylech gysylltu â'r awdurdod lleol, a gofyn iddyn nhw pa fathau o ganiatâd y byddwch ei angen. Unwaith y byddwch wedi sicrhau caniatâd yr awdurdod lleol, mae'n debyg y byddwch yn derbyn llythyr ffurfiol o gytundeb yn amlinellu'r cyfyngiadau a'r amodau y mae'n rhaid i reolwr y digwyddiad lynu atyn nhw. Os ydych yn bwriadu gwerthu alcohol, neu ei roi fel gwobr hyd yn oed, bydd rhaid i chi wneud cais am drwydded alcohol.

Trwydded a hysbysiadau digwyddiad dros dro

Cysylltwch â'ch cyngor am Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro (TEN) os ydych am gynnal 'gweithgaredd wedi'i drwyddedu' mewn lleoliad heb drwydded yng Nghymru neu Loegr

Mae gweithgaredd wedi'i drwyddedu yn cynnwys:

- Gwerthu alcohol
- Gweini alcohol i aelodau o glwb preifat
- Darparu adloniant e.e. cerddoriaeth, dawns neu ddigwyddiadau chwaraeon dan do
- Gweini bwyd neu ddiod boeth rhwng 11pm a 5am

Gelwir y broses ymgeisio yn 'gweini' Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro.

Bydd angen TEN arnoch chi hefyd os byddwch am gynnal gweithgaredd penodol sydd angen trwydded ond nad yw'n gynnwysedig yn nhelerau eich trwydded bresennol e.e. cynnal derbyniad priodas mewn canolfan gymunedol.

Cyfyngiadau

O dan TEN mae'n rhaid i'ch digwyddiad fodloni'r amodau canlynol:

- Llai na 500 o bobl bob amser – gan gynnwys y staff sy'n rhedeg y digwyddiad
- Ni ddylai barhau am fwy na 168 awr (7 diwrnod)
- Rhaid i chi fod yn 18 oed o leiaf i wneud cais am TEN.

Sut i wneud cais

- Cysylltwch â'ch cyngor lleol i wneud cais am TEN. Rhaid gwneud hyn o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn y digwyddiad.
- Bydd rhaid i chi dalu ffi o £21.
- Rhaid i chi anfon copi o'r TEN at yr heddlu o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn y digwyddiad. Os ydych yn cyflwyno cais ar-lein, bydd y cyngor yn cysylltu â'r heddlu ar eich rhan.
- Nid yw dyddiad cyflwyno'r TEN a dyddiad y digwyddiad wedi'u cynnwys yn y cyfanswm o ddyddiau gwaith cyn y digwyddiad.
- Dim ond fel unigolyn y cewch wneud cais am TEN, nid fel sefydliad.



06_
**Marchnata a
chysylltiadau
cyhoeddus.**

Hysbysebu

Nid yw hysbysebu bob amser yn angenrheidiol, ond gall fod yn fuddiol iawn. Os yw eich cyllideb yn caniatáu hynny, defnyddiwrch wasanaeth proffesiynol. Fel arall, mae digon o ffyrdd y gallwch hysbysebu eich digwyddiad yn effeithiol. Yn gyntaf, dylech dargedu'r gymuned leol trwy wneud cyhoeddiadau mewn cyfarfodydd lleol, gosod arwyddion, hysbysebu yn y papur lleol, ar y radio neu'r siop gornel, ac ar drafnidiaeth gyhoeddus. Fodd bynnag, y ffordd rataf o hysbysebu yw ar y Rhynggrwyd.

Cyfryngau cymdeithasol

Mae amrywiaeth o lwyfannau ar gael, a bydd yr un mwyaf llwyddiannus yn dibynnu ar eich cynulleidfa darged. Os ydych yn edrych am stondinwyr, efallai mai Twitter ac anfon ebost uniongyrchol fydd y ffordd fwyaf effeithiol i chi. Ar y llaw arall, efallai mai Facebook fydd y ffordd orau i gysylltu â'r gynulleidfa rydych am ei denu. Wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, gallai'r awgrymiadau canlynol fod o fudd:

- Denwch eich cynulleidfa i sgwrsio gan ofyn cwestiynau iddyn nhw ac ymateb i'w sylwadau.
- Peidiwch â chanolbwyntio gormod ar werthu. Gallai hyn ddiflasu pobl. Yn lle hynny, postiwrch ddeunydd newydd neu luniau o'r tu ôl i'r llenni.
- Byddwch yn anffurfiol – nid 'pitch' busnes yw hwn. Ceisiwch gyfleu thema ac awyrgylch eich digwyddiad.
- Mae lluniau'n well na geiriau. Gofynnwch i'r arlwywyr anfon y lluniau gorau o'u bwyd i chi gael eu rhannu er mwyn creu ychydig o gyffro cyn y digwyddiad.
- Postiwch erthyglau am y bobl leol sydd â stondinau a rhannwch eu straeon.
- Trefnwch gystadlaethau sy'n annog pobl i rannu eich cynnwys er mwyn ennill tocynnau am ddim.

Arwyddion

Gallai gosod arwyddion cyn y digwyddiad fod yn ffordd dda iawn i ddenu mwy o ymwelwyr. Dylech sicrhau caniatâd gan yr awdurdod lleol a pherchennog y tir. Gwybodaeth allweddol i'w chynnwys: y math o ddigwyddiad, dyddiad, amser, ffi mynediad a gwefan neu rif ffôn. Gallai arwyddion bach y gall cerddwyr eu darllen gynnwys mwy o wybodaeth a chael eu harddangos mewn ffenestri siopau.

Darparu profiad gŵyl fwyd dwyieithog

P'un ai Cymraeg yw eich iaith gyntaf neu os ydych yn ei chael hi'n anodd rhoi dau air at ei gilydd, mae'n werth ystyried cynnwys y Gymraeg yn eich deunydd marchnata ac yng ngweithgarwch ehangach yr ŵyl fwyd.

Yn ogystal â denu siaradwyr Cymraeg, fydd yn gwerthfawrogi ac yn cael eu denu gan ŵyl sy'n cyfathrebu â nhw yn eu hiaith gyntaf, mae manteision hefyd wrth dargedu unigolion ymhellach i ffwrdd. Mae ymwelwyr twristiaeth bwyd o'r tu allan i Gymru yn aml yn chwilfrydig ac yn cael eu cyfareddu gan y Gymraeg, a gall ychwanegu dimensiwn unigryw i'w hymweliad â'ch gŵyl gan arddangos treftadaeth wahanol i'r hyn maen nhw wedi arfer â'i weld.

Rhai manteision allweddol i wyl fwyd ddwyieithog:

- **Unigryw** - Unigryw: Mae marchnata dwyieithog yn sicrhau hunaniaeth gref; mae'n bwynt gwerthu unigryw, gan olygu bod eich gwyl a'ch brand yn fwy cofiadwy ac yn wahanol i'ch cystadleuwyr.
- **Treftadaeth** - y Gymraeg yw un o ieithoedd hynaf Ewrop - mae marchnata dwyieithog yn dangos bod eich gwyl yn un sy'n deall ac yn parchu hanes a threftadaeth genedlaethol, gan wella profiad yr ymwelydd/cwsmer.
- **Teyrngarwch** - Mae'n cynyddu diddordeb, cefnogaeth a theyrngarwch gan siaradwyr a chwsmeriaid Cymraeg.
- **Enw da** - Ym maes twristiaeth bwyd, mae gan Gymru enw da am gynhyrchu bwyd ac am ei diwydiant twristiaeth, felly bydd marchnata'n ddwyieithog yn bwydo oddi ar yr enw da hwn.
- **Lleol** - Mae marchnata dwyieithog yn cadarnhau'r syniad bod eich gwyl fwyd wedi'i gwreiddio yn yr economi a'r diwylliant lleol ac yn eu cefnogi.
- **Niche** - Bydd hyrwyddo'ch gwyl yn ddwyieithog yn amlygu profiad niche a newydd i gwsmeriaid o'r tu hwnt i Gymru, ac ymhellach.

Mae amrywiaeth o adnoddau ar gael i'ch helpu i drefnu gwyl fwyd gwbl ddwyieithog. Dyma rai adnoddau ar-lein i'ch helpu i ymchwilio'n bellach:

- **Llywodraeth Cymru** - Cymraeg - mae gan Lywodraeth Cymru nifer o adnoddau, eitemau newyddion, ac astudiaethau achos ynglŷn â manteision defnyddio'r Gymraeg. Am ragor o wybodaeth, ewch i: www.cymraeg.llyw.cymru
- Mae Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn cynnig cyfoeth o wybodaeth ac adnoddau i helpu busnesau i weithredu'n ddwyieithog yng Nghymru, gan gynnwys gwasanaeth prawf ddarllen am ddim ar gyfer hyd at 1,000 o eiriau o destun dwyieithog. Ewch i'w tudalen a gweld sut gallwch droi defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant yn fantais gystadleuol: www.comisiynyddygyymraeg.cymru/hybu
- **Gwasanaethau cyfieithu** - Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yw cymdeithas y cyfieithwyr Cymraeg proffesiynol ac mae hefyd yn cynnig cyngor ymarferol, yn ogystal â rhestr o gyfieithwyr cymeradwy: www.cyfieithwycymru.org.uk



Syniadau

awgrymiadau i roi help llaw i'ch stondinwyr

Does dim ots pa mor llwyddiannus ydych chi wrth ddenu cynulleidfâ, mae hefyd yn werth cynnig help llaw i gael y gorau o'r busnesau bwyd yn yr ŵyl

Dyma ambell awgrym i'w rhannu gyda nhw:

- Meddylwch am bethau syml i wneud i'ch stondin sefyll allan mewn ffordd broffesiynol a deniadol, e.e. gwisg swyddogol neu liain bwrdd glân wedi'i frandio. Bydd ffedog neu liain wedi'i frandio yn ffordd gyflym, syml a rhad i wella delwedd eich busnes
- Dangoswch eich prisiau yn glir, e.e. beth am ddefnyddio bwrdd du? Gallwch ei aildddefnyddio, ac mae'n edrych yn wych
- Gwenwch, edrychwch yn llygaid eich cwsmeriaid, rhannwch ddigon o wybodaeth a byddwch yn gyfeillgar. Gofalwch nad yw iaith eich corff yn gyrru cwsmeriaid i ffwrdd
- Denwch gwsmeriaid gyda samplau. Caiff y cwsmeriaid flas cyn prynu ac fe gewch chithau gyfle euraid i werthu'r cynnyrch
- Adeiladwch deyrngarwch cwsmer. Mae geiriau da yn cael eu rhannu, felly byddwch yn gwrtais gyda phawb; wyddoch chi ddim gyda phwy fyddan nhw'n siarad nesaf

Gwnewch yn siŵr fod eich stondinwyr yn hyrwyddo eu presenoldeb cyn, yn ystod ac ar ôl yr ŵyl. Gall hyn gynnwys:

- Hyrwyddo eu presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol, e.e. Twitter a Facebook
- Darparu poster a thaflenni ynglŷn â'ch gŵyl iddyn nhw eu dosbarthu yn ystod eu gweithgarwch wythnosol
- Ysgrifennu blog neu eitem newyddion ar eu gwefan ynglŷn â'r ŵyl
- Hyrwyddo cynnyrch neu weithgarwch newydd a gaiff ei lansio yn yr ŵyl yn y cyfryngau lleol
- Mae'n hollbwysig eu bod yn gwneud popeth yn eu gallu i ledaenu'r neges. Anogwch bob stondinwr i sôn wrth eu cwsmeriaid yn yr wythnosau cyn yr ŵyl y byddan nhw yno.



07_

Gwerthuso'r wyl.

Aðrodd ac eðrych yn ôl

Gall sesiwn adrodd yn ôl gyda chynifer â phosib o aelodau'r tîm fod yn ddefnyddiol iawn. Bydd angen ysgrifennu adroddiad terfynol ar y digwyddiad yn cynnwys unrhyw broblemau a gododd, sut y cafodd y problemau hynny eu trin, a sut i atal y problemau hynny rhag codi eto yn y dyfodol.

Mae'n rhaid i chi hefyd ystyried a oes ffyrdd haws, mwy cost effeithiol o wneud pethau. Dylech ymgynghori â'r holl staff; gallai'r glanhawr toiledau fod â syniad gwych am sut i ddatrys y problemau a gododd yn ystod y digwyddiad.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn diolch i'r holl staff a gwirfoddolwyr oedd yn rhan o'r digwyddiad.



Syniadau

awgrymiadau gan drefnwyr gwyliau bwyd Cymru

Yn ddiweddar, daeth holl drefnwyr gwyliau bwyd Cymru at ei gilydd i rannu eu hawgrymiadau gorau ar gyfer trefnu eich digwyddiad blynyddol.

Dyma'r deg uchaf:

- **Deall beth rydych chi'n ei gynnig.** Drwy ddeall eich pwynt gwerthu unigryw a gwneud y mwyaf ohono gallwch sefyll allan. Gwnewch yn siŵr fod yr elfennau sylfaenol angenrheidiol yn iawn ar gyfer digwyddiad trefnus, ac ar ôl hynny dechreuwch feddwl am ffyrdd newydd arloesol i ddenu'r dorf.
- Ceisiwch feddwl bob amser am ffyrdd i **gynyddu incwm**. Er enghraifft, efallai fod digwyddiadau eraill yn cael eu cynnal gyda'r nos a fyddai'n cyd-fynd yn dda gyda'ch digwyddiad chi, gan gynnig rheswm i estyn hyd eich gweithgaredd. Efallai fod noddwyr posibl yn yr ardal, neu stondinwyr eraill a fyddai'n elwa o weithio gyda chi ac a fyddai'n gallu cyfoethogi eich arlwy a chynyddu eich incwm.
- Mae **canolfannau bwyd Cymru** (h.y. Arloesi Bwyd Cymru) yn adnodd defnyddiol i nifer o bobl - o restrau o gynhyrchwyr y gallwch gysylltu â nhw, i ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch i'w ddilyn. I wybod mwy ewch i www.arloesibwyd.cymru
- Byddwch yn wiliadwrus o **wirfoddolwyr yn chwythu eu plwc**. Os ydych yn ddibynnol ar nifer o wirfoddolwyr teyrngar, gwnewch eich gorau i adfywio'r criw i sicrhau gwaed newydd a lleihau gorddibyniaeth ar grŵp craidd o wirfoddolwyr teyrngar.
- Ceisiwch am **wobrau**. Mae llwyddiant yn fachyn ardderchog ar gyfer cyhoeddusrwydd ac yn fodd i sicrhau nawdd posibl ynghyd â chynulleidfa ehangach.
- Mae gan **arddangosiadau** gan gogyddion enwog gyfradd llwyddiant gymysg o ran denu cynulleidfa. Os nad oes gennych chi'r cyllid na chynllun ar sut i'w defnyddio nhw, e.e. yn eich cyhoeddusrwydd, efallai y byddai'n well edrych am gogyddion lleol sydd wedi'i gwreiddio yn y gymuned.
- Cadwch **gofnodion trylwyr** a sicrhewch eich bod yn cael arian gan stondinwyr o flaen llaw i helpu gyda llif arian.
- **Gadewch digon o amser i drefnu'r digwyddiad.** Peidiwch â thanamcangyfrif faint o amser y gall gymryd.
- Sicrhewch **leoliad da a gwnewch yn siŵr nad yw'n gwrthdaro â digwyddiadau tebyg** neu ddigwyddiadau yn yr ardal tua'r un adeg. Gallai hyn effeithio ar y nifer o ymwelwyr a pha stondinwyr sy'n gallu dod.
- **Gwnewch eich ymchwil.** Mae cysylltu â threfnwyr gwyliau bwyd eraill gartref a thramor yn ffynhonnell ardderchog o syniadau ffres ar sut i leihau costau, cynyddu incwm ac ymwelwyr, ac yn y pendraw, cryfhau hyfywedd tymor hir eich gwyl fwyd.

08 Dolenni defnyddiol

Mae'r dolenni canlynol yn cynnwys gwybodaeth, arweiniad a deunydd meddwl pellach wrth i chi gynllunio, datblygu a gwella eich gŵyl fwyd.

Cynllunio

Beth i'w wneud ac i beidio â'i wneud wrth drefnu eich digwyddiad

<https://businesswales.gov.wales/marketing/topics/exhibitions-and-events/dos-and-don%E2%80%99ts-when-holding-your-own-event-or-exhibition>

Llunio cynllun busnes

<https://businesswales.gov.wales/cy/zones/startup/llunio-cynllun>

Cynnal digwyddiad

<https://businesswales.gov.wales/marketing/topic-overview/Holding%20your%20own%20event>

Dylunio a chynnwys

Cwestiynau cyffredin dylunio

<http://businesswales.marketinginfohub.co.uk/topics/marketing-strategy/design-faqs>

Creu eich brand

<https://businesswales.gov.wales/marketing/topic-overview/Branding>

Dylunio logo

<https://www.entrepreneur.com/article/71902>

Rheoli safle

Cyfarwyddyd Croeso Cymru (digwyddiadau mawr) ar iechyd, diogelwch a lles

<http://gov.wales/topics/culture-tourism-sport/major-events/?lang=en>

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, cyfarwyddyd ar redeg digwyddiadau'n ddiogel

<http://www.hse.gov.uk/event-safety/>

Trefnu digwyddiad gwirfoddol: canllaw 'Gallaf ei wneud'

<https://www.gov.uk/government/publications/can-do-guide-for-organisers-of-voluntary-events/the-can-do-guide-to-organising-and-running-voluntary-and-community-events>

Deddfwriaeth a gofynion

Rheoleiddio a deddfwriaeth diogelwch bwyd – yr Asiantaeth Safonau Bwyd

<https://www.food.gov.uk/wales/about-fsa-wales/cymru/gorfodi/rheol-deddf>

Rhagor o wybodaeth am Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro (TEN)

<https://www.gov.uk/temporary-events-notice>

Cwestiynau am fwyd stryd - Street Food UK

www.streetfood.org.uk/questions-answered.html

Marchnata a chysylltiadau cyhoeddus

Cwestiynau cyffredin hysbysebu

<https://businesswales.gov.wales/marketing/topic-overview/Media%20advertising%20strategy>

Dechrau arni gyda hysbysebu talu fesul clic

<https://businesswales.gov.wales/marketing/topics/online-marketing>

Hysbysebu Ar-lein

<http://businesswales.marketinginfohub.co.uk/topic-overview/online-and-ppc-advertising>

Gwerthuso'r ŵyl

Mesur llwyddiant eich digwyddiad

<http://eventjuice.co.uk/measuring-evaluating-the-success-of-events/>

Defnyddio Twitter analytics

<https://business.twitter.com/en/analytics.html>

Elfennau hysbysebu Facebook

<https://www.facebook.com/business/learn/facebook-ads-measuring-results/>

Creu digwyddiad dwyieithog

Defnyddio'r Gymraeg wrth hyrwyddo eich gŵyl fwyd

<https://businesswales.gov.wales/marketing/topic-overview/Media%20advertising%20strategy>

Adnoddau Comisiynydd y Gymraeg

<http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/hybu/cy/canllawiau/Pages/canllawiau.aspx>

Dod o hyd i wasanaethau cyfieithu

<https://www.cyfieithwycymru.org.uk/cy/>

bwyd-food@wales.gsi.gov.uk

